**Senedd Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Welsh Parliament | Research Service**

# P-05-1040 Cyflwyno moratoriwm ar gymeradwyo unrhyw losgyddion gwastraff newydd ar raddfa fawr yng Nghymru.

Y Pwyllgor Deisebau | 17 Tachwedd 2020
Petitions Committee | 17 November 2020

Cyfeirnod: RS20/14409-1

**Rhif y ddeiseb**: P-05-1040

**Teitl y ddeiseb**: Cyflwyno moratoriwm ar gymeradwyo unrhyw losgyddion gwastraff newydd ar raddfa fawr yng Nghymru

**Geiriad y ddeiseb:** O ystyried yr ymdrech i ddod yn economi gylchol, ddiwastraff, dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno moratoriwm ar ddatblygu unrhyw losgyddion gwastraff newydd (gan gynnwys ynni o wastraff) ac atal dilyniant unrhyw geisiadau i gynllunio llosgyddion sydd ar y camau cyn ymgeisio/cyn cymeradwyo. Mae llosgi gwastraff yn arwain at allyriadau, gan gynnwys CO2 nad yw'n cael ei gyfyngu ar hyn o bryd o dan reoliadau losgyddion.

Wrth ddatblygu ei strategaeth Economi Gylchol, mae'n amlwg bod y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru yn teimlo'n gryf yn erbyn llosgi:

**https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-09/beyond-recycling-summary-of-responses_1.pdf**https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-09/beyond-recycling-summary-of-responses_1.pdf

Fel y nodir yn y linc uchod: "Er bod rhanddeiliaid yn cytuno â dadgymell llosgi ac yn cydnabod y gallai treth llosgi leihau'r farchnad ar gyfer peidio ag ailgylchu gwastraff, dywedwyd sawl gwaith nad yw treth yn mynd yn ddigon pell.  Wrth symud tuag at economi gylchol, roedd ymatebwyr o'r farn y byddai

llai o wastraff yn cael ei gynhyrchu ac, felly, byddai presenoldeb llosgwyr yn anghydnaws â'r cysyniad."

O ystyried bod llosgyddion newydd yng Nghymru ar y cam cyn ymgeisio/cyn cymeradwyo, dylai Llywodraeth Cymru atal datblygiad unrhyw losgyddion newydd, yn enwedig wrth iddi ddatblygu ei Strategaeth Economi Gylchol a ddylai gynnwys ystyriaeth o'i chapasiti llosgi presennol.

# 1. Cefndir

## 1.1. Llosgi yng Nghymru

Ar hyn o bryd mae dau losgydd neu waith "ynni o wastraff" yn gweithredu yng Nghymru, gyda sawl un arall yn y camau cynllunio. Mae gan Barc Trident, a weithredir gan Viridor yn Y Sblot, Caerdydd, y gallu i drin 425,000 tunnell o wastraff trefol y flwyddyn. Daeth gwaith Parc Adfer ar Lannau Dyfrdwy yn weithredol ar ddiwedd 2019 a'i nod yw prosesu 200,000 tunnell o wastraff y flwyddyn o Gonwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd ac Ynys Môn.

## 1.2. Hierarchaeth gwastraff a thargedau ailgylchu

Mae'r hierarchaeth gwastraff yn rhestru opsiynau atal a rheoli gwastraff yn ôl yr hyn sydd orau i'r amgylchedd. Mae'n rhoi'r brif flaenoriaeth i atal gwastraff yn y lle cyntaf. Pan fydd gwastraff yn cael ei greu, mae'n rhoi blaenoriaeth i'w baratoi i'w ail-ddefnyddio, yna ei ailgylchu, wedyn adferiad arall (e.e. ynni o wastraff), ac yn olaf oll ei waredu (e.e. tirlenwi / llosgi heb adfer ynni). Nodir yr hierarchaeth wastraff yn Erthygl 4 o'r *Fframwaith Gwastraff diwygiedig Cyfarwyddeb (2008/98 / EC).* Troswyd y Gyfarwyddeb yng Nghymru gan *Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011*. Yn 2012 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru arweiniad ynghylch gweithredu'r hierarchaeth gwastraff.

Gosododd strategaeth wastraff Llywodraeth Cymru yn 2010, Tuag at Ddyfodol Diwastraff, uchelgais i Gymru fod yn genedl ddiwastraff erbyn 2050. Ailadroddwyd y targed hwn yn ei hymgynghoriad diweddar, Mwy nag Ailgylchu (gweler yr adran nesaf) a nododd fod yn rhaid i Gymru anelu at **gyfradd ailgylchu o 100 y cant erbyn 2050**. Byddai hyn yn golygu na fyddai unrhyw wastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi nac i losgyddion. Mae gan awdurdodau lleol

gyfrifoldebau statudol clir dros gasglu a gwaredu gwastraff cartrefi. Mae Llywodraeth Cymru yn gosod Targedau Ailgylchu Statudol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu cyrraedd neu wynebu dirwyon sylweddol. Mae hyn yn golygu y bydd angen ailgylchu 70 y cant o wastraff trefol erbyn 2024/25 gyda'r 30 y cant sy'n weddill (gweddilliol) i gael ei drin gan weithfeydd ynni effeithlonrwydd uchel o wastraff.

## 1.3. Pwerau deddfwriaethol

Mae Is-adran (1) o adran 9A o *Deddf Amgylchedd Cymru 2016* yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gwahardd neu fel arall yn rheoleiddio llosgi mathau penodol o wastraff yng Nghymru. Er enghraifft, gellir defnyddio pŵer o'r fath i nodi rhai mathau o ddeunydd gwastraff y gellir eu hailgylchu fel arall, nad ydynt i'w llosgi.

## 1.4. Y system gynllunio

Yr awdurdodau cynllunio lleol sy'n penderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu trydan sy'n gallu cynhyrchu hyd at 10 Megawat (MW). Mae caniatâd ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu trydan dros 10 MW a llai na 350 MW (heb gynnwys gorsafoedd cynhyrchu trydan gwynt ar y tir nad oes ganddynt derfyn uchaf) yn cael eu hystyried yn Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) a Gweinidogion Cymru sy'n penderfynu arnynt.

Nid yw cydsynio i orsafoedd cynhyrchu trydan dros 350 MW (heb gynnwys gwynt ar y tir) wedi'i ddatganoli a chyfrifoldeb yr Ysgrifennydd Gwladol ydyw, drwy broses Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol Llywodraeth y DU (NSIP).

Yng Nghymru, gwneir penderfyniadau cynllunio yng nghyd-destun polisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol a pholisi cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol beidio â bod yn anghyson â pholisi cenedlaethol. Felly gellir ysgrifennu polisi cynllunio Llywodraeth Cymru i annog, anghymeradwyo neu atal rhai mathau o ddatblygiadau.

# 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

## 2.1. Ymgynghoriad Mwy nag Ailgylchu

Ym mis Rhagfyr 2019, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad, Mwy nag Ailgylchu: Strategaeth i wneud yr economi gylchol yng Nghymru yn realiti Gan adeiladu ar ei strategaeth wastraff yn 2010, Tuag at Ddyfodol Diwastraff, amlinellodd yr ymgynghoriad wyth prif gam gweithredu sy'n anelu at gyflawni targed Cymru o fod yn genedl ddiwastraff erbyn 2050:

- arwain y byd o ran ailgylchu;
- cael gwared ar blastig untro yn raddol;
- buddsoddi mewn technoleg lân er mwyn casglu deunyddiau;
- gwneud defnydd mwy effeithlon o'n bwyd;
- blaenoriaethu prynu pren, a chynnyrch sydd wedi'i ailweithgynhyrchu a'i ailgylchu;
- galluogi cymunedau i weithredu ar y cyd ar effeithlonrwydd adnoddau;
- creu'r amodau i fusnesau achub ar gyfleoedd i leihau eu ôl troed carbon a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon; ac
- ysgwyddo cyfrifoldeb llawn am ein gwastraff.

Cyfeiriodd yr ymgynghoriad yn gyfyngedig at losgi. Nododd y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i ymchwilio a fyddai treth llosgi yn ddymunol fel ffordd arall o gynyddu cyfraddau ailgylchu. Ar fater seilwaith, nododd yr ymgynghoriad (ychwanegwyd pwyslais):

> As a responsible nation, we are committed to dealing effectively with our nonrecyclable waste in a way which prevents it from either polluting the environment or becoming a problem elsewhere. For this reason we have invested in infrastructure which generates electricity and heat from this material and disposes of it safely to the highest environmental standards. **The long term solution is to move away from nonrecyclable materials that are currently incinerated like single use plastic.**

Roedd y crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020, yn amlinellu barn ymatebwyr ar losgi. Er bod ymatebwyr yn cytuno â dadgymell llosgi ac yn cydnabod y gallai treth llosgi leihau'r farchnad ar gyfer peidio ag ailgylchu gwastraff, dywedwyd sawl gwaith nad yw treth yn mynd yn ddigon pell. Wrth symud tuag at economi gylchol, dywedodd fod ymatebwyr yn

credu y byddai llai o wastraff yn cael ei gynhyrchu ac, felly, byddai presenoldeb llosgyddion yn anghydnaws â'r cysyniad. At hynny, mewn perthynas â materion yn ymwneud ag allyriadau nwyon tŷ gwydr, ansawdd aer a lludw gweddilliol, dadleuodd ymatebwyr y dylai'r strategaeth wahardd neu gael gwared â llosgi yn raddol, yn hytrach na gweithredu treth i leihau ei ddefnydd. Awgrym arall oedd creu map ffordd i gael gwared â llosgi yn raddol.

Ar 23 Hydref 2020 ysgrifennodd Julie James AS, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, (y Gweinidog) at Janet Finch-Saunders AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau, ynglŷn â'r ddeiseb hon. Mae'r llythyr yn rhoi rhagor o fanylion am y broses gynllunio ar gyfer llosgyddion gwastraff ac mae'n pwysleisio mai "cam trosiannol" yw llosgi gwastraff ar gyfer gwres a phŵer:

> … The Beyond Recycling consultation on a new circular economy strategy was clear the long-term solution is to keep resources in use for longer and reduce all waste.  Yn y cyfamser mae angen ymdrin yn effeithiol â gwastraff na ellir ei ailgylchu mewn ffordd sy'n ei atal rhag naill ai llygru'r amgylchedd neu weld y broblem yn cael ei hallforio.

Daw'r llythyr i ben gan ddweud y bydd y safbwyntiau a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn cael eu hystyried a bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi strategaeth economi gylchol newydd erbyn diwedd y flwyddyn.

# 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Bu nifer o alwadau am foratoriwm ar losgyddion yn y Senedd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, gan gynnwys yn y Cyfarfod Llawn - Janet Finch-Saunders AS ar 13 Hydref a 6 Hydref   2020; y diweddar Mohamad Ashgar AS ym mis Ionawr 2020; Mike Hedges AS ym mis Rhagfyr 2019, mis Mehefin 2019 (y ddau mewn perthynas â llosgi gwastraff anfeddygol) a mis Ebrill 2019; Llŷr Gruffydd AS ym mis Tachwedd 2019; a Russell George AS ym mis Mehefin 2019. Cyflwynodd Russell George AS hefyd gwestiynau ysgrifenedig ym mis Ionawr 2020 a mis Gorffennaf 2019.

Mae ymatebion Llywodraeth Cymru i'r holl alwadau hyn yn gyson â'r ymateb a roddwyd gan y Gweinidog yn ei llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor dyddiedig 23 Hydref 2020.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.